ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

See the English version below

ARHOLIADAU 2020 – BLYNYDDOEDD 11 a13eg

28/03/20

Annwyl Ddisgyblion a Rhieni,

Mae'n bosib eich bod wedi gweld ar wefannau CBAC a Chymwysterau Cymru bod yna **gynlluniau mwy pendant, ond ddim yn derfynol**, ar gyfer graddio cymwysterau TGAU a Safon Uwch eleni. Bydd cyfarwyddiadau mwy pendant yn ein cyrraedd yn ystod mis Ebrill a byddwn yn eich diweddaru yn syth o'r datblygiadau yma. Gweler arall-eiriad o ran o lythyr Cymwysterau Cymru i ysgolion sy'n rhoi mwy o syniad o sut bydd y graddau yn cael eu rhoi (gweler y linc ar gyfer y llythyr llawn: **https://bit.ly/LlythyrCymwCym**):

"Bydd graddau ar gyfer pynciau TGAU a Safon Uwch yn 2020 yn cael eu gweithio allan gan ddefnyddio ystod o dystiolaeth. Byddant wedi eu gosod ar gyfuniad o ffactorau a all gynnwys marciau am waith a gwblhawyd hyd yma, er enghraifft, canlyniadau UG ar gyfer graddau Safon Uwch, a graddau safonedig a asesir gan athrawon.

Bydd graddau a asesir gan athrawon wedi eu gosod ar yr hyn y mae athrawon yn disgwyl i ddysgwr ei gyflawni ar ddiwedd y cwrs. Mae angen iddynt gynrychioli dyfarniad teg, rhesymol ac wedi'i ystyried yn ofalus fel y radd fwyaf tebygol y gellid ei gyflawni gan ddisgybl unigol mewn amgylchiadau arferol. Mae hwn yn ddyfarniad proffesiynol sydd wedi ei osod ar y wybodaeth asesu cyfan sydd gan yr ysgol ar gyfer y dysgwr hwnnw a bydd yn farn o edrych ar ei waith i gyd yn hytrach nag yn canolbwyntio ar un ffynhonnell dystiolaeth fel ffug arholiadau. Nid graddau targed na graddau dymunol yw'r rhain..."

Yn ogystal â'r uchod, rydym wedi derbyn gwybodaeth ddydd Iau diwethaf gan CBAC yn cadarnhau ni fydd gwaith cwrs neu unrhyw asesiadau o dan reolaeth yn cael eu cymedroli yn ffurfiol gan CBAC er mwyn sicrhau tegwch i bob disgybl, ond mae disgwyl i bob ysgol i gadw'r gwaith yma yn ddiogel.

Rydym wedi rhoi'r cyngor yn barod i bob disgybl ym Bl.11 a 13eg i barhau i gwblhau unrhyw ddarnau o waith cwrs sydd angen eu gwneud, gan gynnwys unrhyw waith ar gyfer y Tystysgrif Her Sgiliau, ac hefyd i gwblhau unrhyw gyn-bapurau rydych wedi'u derbyn. Mae'r datganiad uchod yn cyd-fynd gyda'r cyngor yma, gan fydd yn help i'r ysgol i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth i allu llunio asesiadau athro teg o waith cyflawn pob disgybl ym Mryn Tawe.

Cofiwch, os ydych wedi cwblhau'r holl waith cwrs, rydym yn disgwyl i chi fynd ati i baratoi ar gyfer bywyd yn y 6ed neu'r coleg trwy ddarllen ac ymchwilio o gwmpas y pynciau rydych yn dymuno eu hastudio. Yn yr un modd, gall ddisgyblion blwyddyn 13eg ddefnyddio eu hamser yn ddoeth yn darllen ac yn ymchwilio testunau y byddant yn eu hastudio ar eu cyrsiau yn y brifysgol o fis Medi ymlaen. Hyderwn y bydd ein disgyblion mwyaf cydwybodol yn ymgymryd â'r heriau dysgu annibynnol yma gyda brwdfrydedd a bydd yn baratoad gwych ar gyfer y cam nesaf yn eich dysgu.

Mae eich athrawon o hyd ar gael i drafod unrhyw agweddau o'r tasgau yma drwy naill ai lwyfannau 'Teams', neu ddosbarthiadau Hwb. Maent hefyd ar gael wrth gwrs i drafod drwy e-bost – plis cysylltwch â hwy. Yn ogystal, rwyf i ar gael i drafod, naill ai ar y ffôn yn yr ysgol neu ar fy nghyfeiriad e-bost: DaviesS456@hwbcymru.net – cysylltwch os oes angen.

Ga i ymbil arnoch i ddilyn y cyngor diweddaraf gan y GIG (https://bit.ly/C-19GIG) a ICC (http://bit.ly/icc-coronavirus) i wrthsefyll feirws C-19 ar gyfer eich iechyd chi a'ch teuloedd – byddwch yn gyfrifol iawn yn y cyfnod ansicr a phryderus yma.

Cadwch yn ddiogel a chofion cynnes,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol sy'n parchu hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

EXAMINATIONS 2020 – YEARS 11 AND 13

28/03/20

Dear parents and pupils,

You might have seen recent communications from WJEC and Qualifications Wales regarding plans for assessing and grading this year's GCSE and A level qualifications. More specific guidance will be issued during April, and once received, we will issue updated information for all stakeholders.

Below is an extract from Qualifications Wales statement to schools, providing further information on how grades will be issued to learners (please see the link for the full version of the letter)
https://bit.ly/QualWalLetter

"Grades for GCSE and A level qualifications in 2020 will be calculated using a range of evidence. They will be based on a combination of factors which may include marks for work completed to date, for example AS results for A level grades, and standardised teacher assessed grades.

Teacher assessed grades will be based on what teachers would expect a learner to achieve at the end of the course. They need to represent a fair, reasonable and carefully considered judgement of the most likely grade that might be achieved in normal circumstances. This is a professional judgement based on the combined assessment information held for that learner and will be a holistic judgement rather than focusing on a single source of evidence like mock examinations. These are not target grades or aspirational grades..."

In addition to the above statement, we received confirmation from WJEC on Thursday that all NEA (Non-exam assessment) or coursework will NOT be moderated formally by WJEC to ensure fairness to all leaners, however it is expected that all schools keep secure records of these assessments.

We have already advised all learners in year 11 and 13 that they should continue to complete any relevant coursework or projects, including any remaining tasks for the Skills Challenge Certificate, and to respond to any past examination papers assigned by teachers. The statement above corresponds with this advice, as such evidence will support the school in collating information and evidence which will help inform the teacher assessment of learners here at Bryn Tawe.

Remember, if learners have completed all relevant coursework, we expect you to begin preparations for sixth form study or for your courses in college by researching your relevant subject areas. By the same token, all year 13 learners can use their time wisely by reading and researching within their subject areas in readiness for their university courses. We fully aniticpate that our learners will meet these independent learning tasks with enthusiasm as they prepare for the next steps in their studies.

Remember, all teachers are available should you wish to discuss any aspects of theses tasks, either via the Microsoft Teams platform, Hwb classes or the SMHW app and website. All teachers are also contactable through their e-mail addresses. Please do not hesitate to get in touch.

In addition to this, I am more than happy to discuss any queries, either via the school's telephone number or via e-mail: DaviesS456@hwbcymru.net – please do not hesitate to contact me.

Can I once again please ask all of you to follow the latest advice issued in relation to Covid-19 by the NHS (https://bit.ly/C-19GIG) and Public Health Wales. Once again thanks for all the support and we wish you and your family the very best during these difficult times. Please stay safe.
Best wishes,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth : Mr Simon Davies

Microsoft Schools
Ysgol Sy'n Parchu Hawliau UNICEF
Ysgol Rygbi Cymru
BUDDSODDWYR MEWN POBL | Aur
Noddir gan Lywodraeth Cymru Sponsored by Welsh Government
Supported by The National Lottery® Cefnogwyd gan Y Loteri Genedlaethol
Cyngor Celfyddydau Cymru Arts Council of Wales